

## **Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion**

### **Gwybodaeth ychwanegol at EAQ40659 a gyhoeddwyd gan Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth, ar 21 Rhagfyr 2004**

#### **At William Graham:**

Yn ystod trafodaethau yn y Cyfarfod Llawn ar 7 Rhagfyr cyfeiriasoch at uchder y bont dros y dociau yng Nghasnewydd mewn cysylltiad â'r M4 newydd o Magwyr i Gas-bach.

Bwriedir codi traphont (multispan viaduct) dros dociau Casnewydd ac Afon Ebwy ac Afon Wysg. Byddai'n croesi rhwng doc y Gogledd a doc y De. Yn flaenorol, ystyriwyd ei uchder drwy ymgynghori'n helaeth â phobl sydd â diddordeb mewn dociau a mordwyo ar ddechrau'r 1990au. Pan gyhoeddodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y pryd y llwybr gorau ym mis Gorffennaf 1995, eglurodd y datganiad o resymau amgaeedig

'ymddengys y byddai uchder o rhwng 20 a 30 metr yn sicrhau cydbwysedd rhwng y ffactorau cystadleuol sef sicrhau bod digon o le ar gyfer llongau a chyfyngu ar yr effaith ar weithgarwch ar y tir ar y naill law ac ymyrraeth ar yr olygfa ar y llaw arall'.

Mae hyn rhywfaint yn is na'r ail groesfan Hafren sy'n rhoi 37 metr o le ar gyfer llongau. Gan na chafwyd unrhyw awgrym o newid yn yr hinsawdd leol mewn cysylltiad â'r ail groesfan Hafren ymddengys nad oes sail i ofnau pobl ynglŷn ag effaith o'r fath.

Ers hynny, mae amgylchiadau wedi newid, yn cynnwys patrymau mordwyo, masnach y dociau a defnyddio ceiau Afon Wysg. Yn ogystal, mae pont ffordd ddosbarthu deheuol Casnewydd dros yr afonydd yn Spittles Point yn atal llongau masnachol i fyny'r afon i bob pwrpas. Fodd bynnag, mae croesfan newydd yr M4 ymhellach i lawr yr afon felly bydd angen i Lywodraeth y Cynulliad ddiweddarau arolygon blaenorol a diweddarau data i ganfod beth yw'r uchder mwyaf priodol ar gyfer y bont.

### **Gwybodaeth ychwanegol at OAQ40267 a gyhoeddwyd gan Jane Hutt, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ar 29 Rhagfyr 2004**

#### **At Helen Mary Jones:**

#### **Canllaw y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol ar sut i drin pobl ifanc ag iselder**

Yn dilyn eich cwestiwn i'r Prif Weinidog yn y Cyfarfod Llawn ar 7 Rhagfyr, ysgrifennaf atoch i egluro polisi'r Llywodraeth ar y mater hwn. Credaf mai'r cyngor yr oeddech yn cyfeirio ato yw'r cyngor a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan NICE fel ymateb i adolygiad yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd.

Adolygodd y Pwyllgor Diogelwch Meddyginiaethau y dystiolaeth ar y cydberthyniad rhwng atalyddion ail-ddefnyddio serotonin detholus a theimladau hunanladdol mewn pobl ifanc a daeth i'r casgliad nad oedd tystiolaeth i awgrymu cynnydd o ran achosion o hunanladdiad, dim ond tystiolaeth o gynnydd mewn teimladau hunanladdol. Mae meddygon wedi dilyn cyngor a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Diogelwch Meddyginiaethau; mae hyn mewn cyferbyniad â chanllawiau NICE, sydd wrthi'n cael eu datblygu a'u cyflwyno ledled Cymru yn raddol.

Mae'r canllaw ar iselder yn argymhell, ar gyfer iselder ysgafn a chymedrol, bod triniaethau seicolegol sy'n canolbwyntio ar iselder yn benodol (fel therapi datrys problemau, therapi ymddygiad gwybyddol a chynghori) yn gallu bod yr un mor effeithiol â chyffuriau a dylid eu cynnig fel opsiwn arall ar gyfer trin iselder.

Yn ogystal, o gofio bod unigolion yn aeddfedu ar wahanol gyflymder a bod mwy o risg o ymddygiad hunanladdol ymhlith oedolion ifanc nag oedolion hŷn, fel mesur rhagofalus, cynghorodd y grŵp y dylid monitro oedolion ifanc a gaiff eu trin gydag atalyddion ail-ddefnyddio serotonin detholus, y mae Seroxat (paroxetine) a Prozac (fluoxetine) yn ddau ohonynt, yn agos. Nodir y trefniadau ar gyfer eu monitro'n agos yng nghanllawiau NICE. Mae'r cyngor hwn yn berthnasol ledled Cymru a Lloegr, gan nad yw'r mater wedi'i ddatganoli.

Yng Nghymru, mae'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol yn nodi 'Rhaid i ystod gyflawn o therapiau seicolegol fod ar gael ledled Cymru gyda modd mynd at wasanaethau mwy arbenigol'. (Cam Allweddol 26 y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol)

Mae'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol wrthi'n cael ei ddatblygu ac mae'n anelu at gynnig amrywiaeth o driniaethau a therapiau seicolegol. Mae'n edrych ar y defnydd cynyddol o gynghorwyr sy'n gysylltiedig â meddygfeydd ac atgyfeiriadau i wasanaethau cynghori'r sector gwirfoddol. Cynhelir rhai mentrau newydd mewn gwasanaethau gofal sylfaenol iechyd meddwl sy'n rhoi ystod ehangach o opsiynau i bobl/cleifion o ran triniaeth. Mae'r mentrau hyn yn cynnwys dewisiadau amgen i ragnodi meddyginiaeth yn awtomatig.

Mae gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed a'r strategaethau iechyd meddwl i oedolion yn mynd i'r afael ag anghenion pobl ifanc â phroblemau iechyd meddwl, a dylai pob ymyrraeth o'r fath fod yn seiliedig ar dystiolaeth a chydymffurfio â chanllawiau a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Diogelwch Meddyginiaethau.

Disgwylir y caiff y rhwydwaith iechyd meddwl mewn gofal sylfaenol i Gymru ei ddefnyddio i godi ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud ag iechyd meddwl ymhlith gwasanaethau gofal sylfaenol.